

## TREF AR FIN CAEL TAITH TRWY'R GWYLLT

### **MAE TREF yn paratoi ar gyfer penwythnos gwyllt wrth iddi ddathlu ei bywyd gwyllt a'i glan y môr.**

Mae Cyngor Tref y Rhyl wedi ymuno â Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych a Chymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych i gynnal antur diwrnod cyfan yn yr awyr agored.

I'w gynnal ar ddydd Sadwrn, Medi 17, bydd y Penwythnos Gwyllt yn dechrau ym Mhwll Cae Brics ac yn cynnwys Cÿt y Rhyl, Chae Chwarae Antur y Rhyl, Marsh Tracks, Glan Morfa a harbwr y dref.

Bydd cyfoeth o weithgareddau am ddim ar hyd y llwybr, gan gynnwys beicio, pysgota, crefftau cefn gwlad, plygu gwrych, gweithdy drymio, adrodd straeon a theithiau tywys. Bwriedir hefyd cael taith ystlumod gyda'r nos ym Mhwll Cae Brics.

Y digwyddiad hwn yw'r ail yn rhaglen ddigwyddiadau newydd y Rhyl ac mae'n dilyn y Penwythnos Brenhinol llwyddiannus i ddathlu pen-blwydd EM y Frenhines yn 90 oed.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Sarah Roberts: "Roedd ein digwyddiad cyntaf yn canolbwyntio ar ganol y dref ac mae'r ail yn mynd â ni allan i gefn gwlad ac at y môr. Mae gan y Rhyl drysorau cudd i'w darganfod ac rydym wedi creu digwyddiad sy'n cwmpasu ardal eang, gyda rhywbeth i'w weld, ei wneud, ei archwilio a chymryd rhan ynddo bob cam o'r ffordd. Mae'n addo bod yn ddigwyddiad braf, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac sy'n cael cefnogaeth dda gan grwpiau a busnesau lleol.

Mae Marsh Tracks, Cymdeithas Bysgota Cÿt y Rhyl, Cae Chwarae Antur y Rhyl a'r Hwb Beicio oll yn cymryd rhan yn y digwyddiad, sy'n cynnwys taith bell ar lannau Afon Clwyd i Ruddlan ac yn ôl.

Meddai Garry Davies, Swyddog Cefn Gwlad (y Gogledd) gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych: "Mae gan y Rhyl leoliadau cefn gwlad gwych ac mae'r digwyddiad hwn yn uno'r gorau ohonynt. Bydd y daith ystlumod gyda'r nos hefyd yn rhoi cyfle i bobl weld agwedd wahanol ar y Rhyl.

Gobeithio, unwaith y bydd pobl wedi darganfod y manau gwych hyn, byddant yn dychwelyd i gerdded, pysgota, beicio a mwynhau'r awyr agored yn y Rhyl."

Mwy/...



-2-

Mae'r digwyddiadau i gyd yn rhad ac am ddim ar y diwrnod. Mae lle i 30 ar y daith ystlumod ac mae angen trefnu ymlaen llaw. I sicrhau eich lle, cysylltwch â Chyngor Tref y Rhyl trwy ebostio - [enquiries@rhyltowncouncil.org.uk](mailto:enquiries@rhyltowncouncil.org.uk)

I gael rhestr lawn o'r gweithgareddau, ewch i dudalen Facebook Cyngor Tref y Rhyl.

**Diwedd**

**24 Awst 2016**

